# Gwella Gwasanaethau a Systemau Camddefnyddio Sylweddau

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

www.cymru.gov.uk

## Safonau Craidd Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau yng Nghymru

Mai 2010

Her Iechyd Cymru
Health Challenge Wales

75% wedi'i ailgylchu recycled

ISBN 978 0 7504 5609 8
© Hawlfraint y Goron 2010
WAG10-03143
F0461011

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 2 |
| Datblygu'r Safonau Craidd | 2 |
| Y Safonau Craidd | 3 |
| Rhoi'r Safonau Craidd ar waith | 3 |
| Darparwyr Triniaethau Camddefnyddio Sylweddau | 4 |
| Gweithredu | 4 |
| Monitro ac Asesu | 4 |
| Atodiad 1 | 39 |
| Atodiad 2 | 41 |

## Cyflwyniad

1. Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys y Safonau Craidd ar gyfer cynllunio a darparu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yng Nghymru. Mae'r safonau yn gymwys i Awdurdodau Cyfrifol[1] y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a holl ddarparwyr gwasanaethau trin camddefnyddio sylweddau yng Nghymru. Hefyd bwriedir i'r safonau helpu i hysbysu dinasyddion o'r hyn y gallant ei ddisgwyl gan wasanaethau trin camddefnyddio sylweddau lleol.

2. Ers 2003, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol fu'n statudol gyfrifol am gynllunio'r broses o ddarparu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yng Nghymru ynghyd â rheoli perfformiad y gwasanaethau hynny. Mae eu hymrwymiad wedi chwarae rhan allweddol yn y cynnydd a wnaed yng Nghymru wrth ymdrin â'r agenda hon yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'n fwriad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i barhau i adeiladu ar y partneriaethau cryf hyn a'u gwella er mwyn datblygu'r agenda heriol a nodir yn "Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed", sef strategaeth 10 mlynedd ar gyfer camddefnyddio sylweddau a gyhoeddwyd yn 2008, a sicrhau gwelliannau pellach i ansawdd gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a ddarperir ymhob cwr o Gymru.

3. Nod y Safonau Craidd ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau a gynhwysir yn y canllawiau hyn yw helpu partneriaid i gyflawni'r ymrwymiad a geir yn y strategaeth i wella ansawdd a chysondeb gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yng Nghymru ac ymateb i ganfyddiadau'r adolygiad cynhwysfawr cyntaf o wasanaethau camddefnyddio sylweddau yng Nghymru a gynhaliwyd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru[2]. (Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru). Amlinellodd yr adroddiad ar yr adolygiad hwnnw sawl maes yr oedd angen ei atgyfnerthu er mwyn sicrhau bod ystod lawn o wasanaethau o ansawdd da yn cael ei darparu'n gyson ledled Cymru i ddiwallu anghenion y boblogaeth.

## Datblygu'r Safonau Craidd

4. Cafodd y Safonau Craidd drafft eu datblygu ar sail y Safonau Gofal Iechyd gwreiddiol a ddefnyddiwyd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i gynnal yr adolygiad cyntaf o wasanaethau camddefnyddio sylweddau. Fe'u croesgyfeiriwyd hefyd â Safonau Gofal Iechyd drafft diwygiedig Cymru er mwyn sicrhau eu bod yn dilyn yr un trywydd. Yn dilyn ymgynghoriad helaeth â rhanddeiliaid o bob cwr o Gymru, mae'r Safonau Craidd wedi cael eu mireinio a'u hailgymharu â Safonau Gofal Iechyd diwygiedig terfynol Cymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Caiff y rhain eu cynnwys yn Atodiad 1 er gwybodaeth.

---

[1] Byrddau Iechyd Lleol, Awdurdodau Lleol, Heddluoedd, Awdurdodau'r Heddlu a'r Gwasanaeth Tân

[2] Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru - Substance Misuse Services: All Wales Review of Substitute Prescribing Services 2009

## Y Safonau Craidd

5. Yn y ddogfen hon cyflwynir 25 o Safonau Craidd ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau. Nid yw'r safonau yn nhrefn blaenoriaeth ac maent wedi'u grwpio gyda'i gilydd er mwyn adlewyrchu'r broses o gynllunio a darparu gwasanaethau o'r dechrau i'r diwedd. Wedi'u hymgorffori yn y Safonau Craidd mae themâu allweddol cynnwys y dinesydd, atebolrwydd, llywodraethu, diogelu, rheoli risg, tegwch, amrywiaeth, diogelwch, sicrhau ansawdd ac effeithiolrwydd.

6. Nid yw'r Safonau Craidd yn disodli nac yn diystyried safonau eraill megis safonau proffesiynol, canllawiau clinigol na safonau iechyd a gofal cymdeithasol. Nod y Safonau Craidd yw:
   - Atgyfnerthu elfennau llywodraethu ac atebolrwydd y broses o gynllunio a darparu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau;
   - Sicrhau bod pob gweithgaredd allweddol sy'n ymwneud â chynllunio, adolygu a darparu gwasanaethau yn canolbwyntio ar y dinesydd; ac yn y pen draw,
   - Sicrhau bod yr ystod lawn o wasanaethau yn cael ei darparu mewn ffordd effeithiol, diogel a chyson ledled Cymru.

## Rhoi'r Safonau Craidd ar waith

### Awdurdodau Cyfrifol

7. Bydd yr holl Safonau Craidd a'r gofynion sylfaenol cysylltiedig yn gymwys i bob Partneriaeth Diogelwch Cymunedol yng Nghymru. Pan fydd Byrddau Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau wedi aeddfedu, rhagwelir y bydd Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn gallu cyrraedd y Safonau Craidd hyn ar lefel Byrddau Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau a dangos tystiolaeth o hynny. Mae'r Safonau Craidd yn gymwys i Fyrddau Iechyd yng nghyd-destun cyflawni eu cyfrifoldebau statudol fel Awdurdod Cyfrifol ar lefel Partneriaethau Diogelwch Cymunedol/Bwrdd Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau. Safonau Gofal Iechyd Cymru yw'r safonau cyffredinol ar gyfer gwella Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru. Y safonau hyn fydd y prif ddull o fonitro perfformiad y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng nghyd-destun Fframwaith Gwella Perfformiad y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a'r Fframwaith Gweithredu Blynyddol o hyd. Gellir hefyd ddefnyddio tystiolaeth i ddangos cydymffurfiaeth â Safonau Gofal Iechyd Cymru ar lefel Partneriaeth Diogelwch Cymunedol/Bwrdd Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau i ddangos cydymffurfiaeth â'r Safonau Craidd ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau.

8. Er hwylustod mae Safonau Gofal Iechyd diwygiedig Cymru wedi cael eu mapio yn erbyn y Safonau Craidd ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau. Caiff y ddeddfwriaeth, polisi ac arfer gorau allweddol sy'n ategu'r Safonau Craidd eu cynnwys yn Atodiad 2.

## Darparwyr Triniaethau Camddefnyddio Sylweddau

9. Bydd y graddau y mae Safon Graidd yn gymwys a'r hyn sy'n ofynnol mewn perthynas â safon yn dibynnu ar y math o wasanaethau a ddarperir ac ni fydd pob un yn gymwys ymhob achos i bob darparwr triniaeth. Rhaid i unrhyw eithriadau gael eu hategu gan gytundeb ysgrifenedig rhwng y darparwr gwasanaeth a'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol/Byrddau Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau.

## Gweithredu

10. **Rhaid i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol, Byrddau Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau, asiantaethau partner eraill a darparwyr gwasanaethau ddechrau gweithredu'r Safonau Craidd fel rhan o bolisïau lleol, arferion a threfniadau llywodraethu, a hynny'n syth**. Dylai'r gwaith hwn adeiladu ar y broses o gynllunio gwelliannau sydd eisoes yn mynd rhagddi i ymateb i adolygiad cynhwysfawr cyntaf Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru o wasanaethau camddefnyddio sylweddau yng Nghymru.

## Monitro ac Asesu

11. Bydd Timau Cynghori Rhanbarthol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Gamddefnyddio Sylweddau yn monitro'r cynnydd a wneir tuag at gyrraedd y Safonau Craidd drwy system monitro perfformiad reolaidd; bydd hyn yn cynnwys adroddiad blynyddol ar gynnydd. Hefyd, mewn adolygiadau pellach, bydd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn defnyddio'r Safonau Craidd ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau i fesur ac asesu diogelwch ac ansawdd gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yng Nghymru.

| Rhif | Safon Graidd | Gofynion Sylfaenol i Gyflawni'r Safon Graidd | Safonau Gofal Iechyd Diwygiedig Cymru |
|---|---|---|---|
| Service Planning | | | |
| 1 | **Mae trefniadau llywodraethu sy'n cynrychioli arfer gorau ar waith ar lefel Partneriaeth Diogelwch Cymunedol a Bwrdd Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau sy'n dilyn egwyddorion llywodraethu corfforaethol ac ariannol cadarn.** | i. Cod Ymddygiad Sefydliadol/Bwrdd sy'n seiliedig ar egwyddorion Nolan a system ar gyfer cyfleu'r Cod.<br>ii. Cytundeb fframwaith partneriaeth y mae'n rhaid iddo gynnwys protocol risg ariannol a rennir, strwythurau gwneud penderfyniadau a rolau a chyfrifoldebau swyddogion a phartneriaid allweddol.<br>iii. Rhaid i holl sefydliadau partner Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a Byrddau Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau gytuno ar lefel ofynnol o gynrychiolaeth lle y bydd proses gwneud penderfyniadau ffurfiol yn gweithredu yn gworaidd.<br>iv. Rhaid i bob sefydliad partner gael ei gynrychioli ar lefel uwch briodol mewn 75% o gyfarfodydd Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a Byrddau Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau.<br>v. Ymhob Partneriaeth Diogelwch Cymunedol a Bwrdd Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau dylai fod:<br>• Prosesau sefydlu ar gyfer cyfarwyddwyr ac uwch aelodau o staff newydd<br>• Prosesau sefydlu ar gyfer pob aelod newydd o staff<br>• Cofrestr buddiannau<br>• Trefniadau archwilio mewnol sy'n cynnwys archwiliadau anariannol ac archwiliadau rheoli | **Safonau Gofal Iechyd Cymru[1]:** Fframwaith Llywodraethu ac Atebolrwydd.<br><br>**Safonau Gofal Iechyd Cymru[4]:** Trefniadau Cynllunio at Argyfwng a Chynlluniau wrth Gefn Sifil.<br><br>**Safonau Gofal Iechyd Cymru[22]:** Rheoli Risg ac Iechyd a Diogelwch. |

| Rhif | Core Safon Graidd | Gofynion Sylfaenol i Gyflawni'r Safon Graidd | Safonau Gofal Iechyd Diwygiedig Cymru |
|---|---|---|---|
| | | • Datganiad o reolaeth fewnol sy'n nodi'r ffynonellau sicrwydd<br>• Systemau asesu risg a rheoli risg sy'n effeithio ar y broses o gynllunio neu ddarparu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau<br>• Systemau cynllunio at argyfwng a chynlluniau rheoli wrth gefn sy'n ymateb yn briodol i argyfwng.<br>• Cofrestr Risg<br>• Pwyllgor(au) Llywodraethu a Risg ar gyfer pob gwasanaeth<br>• System ymgynghori a chyfathrebu â staff<br>• System Rheoli Perfformiad<br>• System ymgynghori â rhanddeiliaid<br>• Trefniadau archwilio allanol | |
| **2** | **Mae strategaeth Gomisiynu a chynlluniau cyflenwi a gwario blynyddol ar waith, yn gytûn ac wedi'u cyhoeddi.** | Mae strategaeth a chynlluniau cyflenwi a gwario cysylltiedig yn adlewyrchu asesiad o angen a chaiff canlyniadau mesuradwy bwriadedig eu llunio yn unol â chanllawiau cenedlaethol.<br>i. Mae'r System Triniaethau yn cynnwys pob math o driniaeth ac yn dangos Llwybrau Gofal Integredig a phwyntiau mynediad.<br>ii. Rhaid i'r Strategaeth Gomisiynu gynnwys cylch adolygu blynyddol. | **Safonau Gofal Iechyd Cymru**[1]: Fframwaith Llywodraethu ac Atebolrwydd.<br><br>**Safonau Gofal Iechyd Cymru**[8]**:** Cynllunio a Darparu Gofal. |

| Rhif | Safon Graidd | Gofynion Sylfaenol i Gyflawni'r Safon Graidd | Safonau Gofal Iechyd Diwygiedig Cymru |
|---|---|---|---|
| | | iii. Rhaid i ddefnyddwyr gwasanaethau, teuluoedd a gofalwyr gael eu cynnwys yn y broses o ddatblygu ac adolygu strategaethau a chynlluniau.<br>iv. Caiff anghenion grwpiau amrywiol eu hystyried yn briodol ac maent yn dangos y cydymffurfir â deddfwriaeth berthnasol.<br>v. Caiff anghenion grwpiau agored i niwed eu hystyried yn briodol ac maent yn dangos y cydymffurfir â deddfwriaeth berthnasol.<br>vi. Rhaid i bob cynllun cyflenwi gael ei ategu gan gynllun datblygu'r gweithlu lleol, yn unol â'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Datblygu'r Gweithlu Camddefnyddio Sylweddau a chynlluniau gweithlu perthnasol eraill.<br>vii. Rhaid i bob ymyriad a gaiff ei gomisiynu fod yn seiliedig ar dystiolaeth o effeithiolrwydd neu ddangos proses werthuso, ynghyd â strategaeth ymadael a reolir gan risg.<br>viii. Rhaid i benderfyniadau buddsoddi a dadfuddsoddi fod yn seiliedig ar dystiolaeth, a chael eu gwneud o fewn fframwaith blaenoriaethu cytûn yn amodol ar ymgynghoriad priodol.<br>ix. Rhaid i strategaethau a chynlluniau cysylltiedig, manylebau gwasanaethau, contractau a Chytundebau Lefel Gwasanaeth adlewyrchu'r Safonau Craidd ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau. | |

| Rhif | Safon Graidd | Gofynion Sylfaenol i Gyflawni'r Safon Graidd | Safonau Gofal Iechyd Diwygiedig Cymru |
|---|---|---|---|
| | | x. Rhaid i bob gwasanaeth a gaiff ei ariannu gael ei ategu gan fanyleb gwasanaeth a rhaid bod contractau neu Gytundebau Lefel Gwasanaeth y cytunwyd arnynt ac sydd wedi'u llofnodi ar waith.<br><br>xi. Caiff adolygiadau ffurfiol eu cynnal o bob gwasanaeth sy'n rhan o'r system triniaethau bob chwarter a chaiff y canfyddiadau eu cyflwyno i'r Bwrdd Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau/Partneriaeth Diogelwch Cymunedol briodol. | |
| **3** | **Mae cynlluniau eang ar waith gan Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol/Byrddau Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau i gyflawni'r canlynol**<br>**i. Nodi gofynion gwella iechyd sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau;**<br>**ii. Ymateb yn briodol;**<br>**iii. Mesur gwelliannau a'r lleihad mewn anghydraddoldebau.** | i Bod system eang ar waith gan Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol/Byrddau Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau sy'n cynnwys lefelau atebolrwydd a phrotocolau gwneud penderfyniadau ar gyfer casglu, dadansoddi a defnyddio gwybodaeth fel y gall materion iechyd sy'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau gael eu hasesu ac fel y gellir ymateb iddynt. Dylai'r system ei gwneud yn bosibl i adolygu'r canlynol yn rheolaidd:<br>• Y Strategaeth Gomisiynu a chynllun cysylltiedig<br>• Y broses o roi'r cynllun blynyddol ar gyfer gwella gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a gwariant ar waith ynghyd ag asesu effaith y cynllun hwnnw<br>• Cyfraniad at gyflawni strategaethau cysylltiedig; e.e. Strategaethau Iechyd a Lles, Asesiad Strategol a Chynllun Gweithredu ar gyfer Trosedd, Anhrefn a Chamddefnyddio Sylweddau, Strategaeth Dai | **Safonau Gofal Iechyd Cymru[3]:**<br>Diogelu, Gwella a Hybu Iechyd.<br><br>**Safonau Gofal Iechyd Cymru[4]:**<br>Trefniadau Cynllunio at Argyfwng a Chynlluniau wrth Gefn Sifil. |

| Rhif | Safon Graidd | Gofynion Sylfaenol i Gyflawni'r Safon Graidd | Safonau Gofal Iechyd Diwygiedig Cymru |
|---|---|---|---|
| | | • Cynnydd tuag at gyflawni Dangosyddion Perfformiad Allweddol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer camddefnyddio sylweddau<br>• Dadansoddi data o'r Proffil Canlyniadau Triniaeth<br>• Canlyniadau ymgynghoriadau cyhoeddus a/neu ddefnyddwyr gwasanaethau<br>• Canlyniadau arolygon boddhad defnyddwyr gwasanaethau<br>• Data iechyd cyhoeddus sy'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau gan gynnwys:<br>- nifer yr achosion o gludo feirysau yn y gwaed<br>- nifer yr achosion o ganfod a thrin feirysau a gaiff eu cludo yn y gwaed<br>- nifer yr achosion o roi brechiadau Hepatitis B i bobl sy'n agored i niwed<br>- nifer yr achosion o ddefnyddio cyffuriau sy'n broblematig a nifer yr achosion o chwistrellu cyffuriau<br>- nifer y marwolaethau a nifer yr achosion o afiachusrwydd sy'n gysylltiedig ag alcohol<br>• Marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau a digwyddiadau y bu bron iddynt achosi marwolaeth<br>• Digwyddiadau andwyol ac achosion y bu bron iddynt ddigwydd<br>• Canlyniadau archwiliadau achosion ac archwiliadau clinigol<br>• Cynlluniau datblygu'r gweithlu | |

| Rhif | Safon Graidd | Gofynion Sylfaenol i Gyflawni'r Safon Graidd | Safonau Gofal Iechyd Diwygiedig Cymru |
|---|---|---|---|
| | | ii. Rhaid i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol/Byrddau Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau weithredu cynlluniau cytûn â darparwyr triniaethau ar gyfer ymateb i rybuddion diogelwch brys yn ymwneud â chyffuriau anghyfreithlon llygredig a bygythiadau hysbys o feirysau a gaiff eu cludo yn y gwaed.<br><br>iii. Rhaid i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol/Byrddau Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau weithredu cynlluniau eang i leihau'r sbwriel sy'n ymwneud â chyffuriau sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth a chanllawiau cyfredol gan gynnwys y materion sylfaenol canlynol:<br>• Cofnodi a mapio nifer yr achosion o sbwriel sy'n ymwneud â chyffuriau ynghyd â'r ardaloedd â phroblem<br>• Gwneud y defnydd mwyaf posibl o weithdrefnau gwaredu diogel a phriodol yn y gymuned<br>• Addysg a hyfforddiant<br>• Darparu llinellau cymorth sy'n galluogi pobl i roi gwybod am sbwriel<br>• Ystyried y ffordd y caiff mannau cyhoeddus eu cynllunio<br>• Cyfathrebu â'r cyhoedd | |

| Rhif | Safon Graidd | Gofynion Sylfaenol i Gyflawni'r Safon Graidd | Safonau Gofal Iechyd Diwygiedig Cymru |
|---|---|---|---|
| **4** | Mae gweithdrefnau lleihau niwed yn cydymffurfio â deddfwriaeth a chanllawiau ac yn rhan o'r system triniaethau gyfan. | i. Rhaid i bob strategaeth a chynllun comisiynu sicrhau bod yr ystod lawn o wasanaethau lleihau niwed camddefnyddio sylweddau ar gael yn seiliedig ar asesiad gwrthrychol o angen.<br>ii. Rhaid i Gytundebau Lefel Gwasanaeth a chontractau adlewyrchu canllawiau cyfredol, arfer gorau clinigol, a gofynion deddfwriaethol.<br>iii. Caiff defnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd/gofalwyr gyngor a gwybodaeth am hunanofal a ddylai gynnwys yr elfennau sylfaenol canlynol:<br>• atal gorddos<br>• diogelwch - gartref<br>• atal pobl rhag ailddechrau defnyddio cyffuriau<br>• chwistrellu mwy diogel<br>• Rhyw diogel<br>• Iechyd rhywiol<br>• Anafiadau a achosir gan nodwyddau<br>• Gwaredu cyfarpar sydd wedi cael ei ddefnyddio yn ddiogel<br>• gofalu am friwiau<br>• hylendid y geg<br>• bwyta'n iach | **Safonau Gofal Iechyd Cymru[8]:**<br>Cynllunio a Darparu Gofal. |

| Rhif | Safon Graidd | Gofynion Sylfaenol i Gyflawni'r Safon Graidd | Safonau Gofal Iechyd Diwygiedig Cymru |
|---|---|---|---|
| | | iv. Rhaid i ddefnyddwyr gwasanaethau gael gwybodaeth a, lle y bo'n briodol, hyfforddiant ar sut i ddefnyddio cyfarpar meddygol, dadheintio, meddyginiaethau a gwaredu gwastraff. | |
| **5** | **Drwy gynllunio a darparu triniaeth gellir sicrhau bod pobl yn cael gafael ar wasanaethau mewn ffordd amserol a theg.** | i. Caiff y broses o gyflawni'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol Cenedlaethol ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau (rhifau 1 - 6) a'u targedau cysylltiedig a'r data o'r Proffil Canlyniadau Triniaeth eu monitro a'u cofnodi ar lefel Bwrdd Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau/Partneriaeth Diogelwch Cymunedol bob chwarter.<br>ii. Bod pob gwasanaeth wedi cyhoeddi Polisïau Rheoli Rhestrau Aros sy'n cynnwys meini prawf blaenoriaethu a rheoli rhestrau aros yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007).<br>iii. Cydymffurfiaeth lawn â gofynion cyflwyno adroddiadau Cronfa Ddata Genedlaethol Cymru ar Gamddefnyddio Sylweddau.<br>iv. Cyhoeddir polisi mynediad defnyddwyr gwasanaethau sydd wedi cael ei ddatblygu gan ddefnyddwyr gwasanaethau ac sydd wedi cael eu sêl bendith.<br>v. Bod cyfeiriadur gwasanaethau cyfredol a chyhoeddedig ar gael ar lefel Bwrdd Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau/Partneriaeth Diogelwch Cymunedol. | **Safonau Gofal Iechyd Cymru[8]:**<br>Cynllunio a Darparu Gofal. |

| Rhif | Safon Graidd | Gofynion Sylfaenol i Gyflawni'r Safon Graidd | Safonau Gofal Iechyd Diwygiedig Cymru |
|---|---|---|---|
| **6** | **Defnyddir systemau gwybodaeth effeithiol a thechnoleg gwybodaeth integredig i lywio ac ategu'r broses o gynllunio a darparu gwasanaethau trin.** | i. Rhaid i bob sefydliad gydymffurfio â gofynion cyflwyno adroddiadau Cronfa Ddata Genedlaethol Cymru ar Gamddefnyddio Sylweddau a Chronfa Ddata'r Proffil Canlyniadau Triniaeth.<br>ii. Rhaid i bob asesiad cynhwysfawr o leiaf gynnwys y parthau a geir yn y Dull Integredig ar gyfer Asesiad Trylwyr o Gamddefnyddio Sylweddau yng Nghymru (WIISMAT).<br>iii. Rhaid i bob asesiad allu cael ei rannu a'i ddefnyddio gan ddarparwyr triniaethau.<br>iv. Bod protocolau rhannu gwybodaeth ar waith ar lefel Partneriaeth Diogelwch Cymunedol a Bwrdd Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau a'u bod yn cael eu profi a'u hadolygu'n systemataidd.<br>v. Bod protocolau rhannu gwybodaeth ar waith rhwng darparwyr gwasanaethau o fewn system triniaeth (gan gynnwys darparwyr gwasanaethau cymorth megis tai) a'u bod yn cael eu profi a'u hadolygu'n systemataidd.<br>vi. Bod Byrddau Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau/ Partneriaethau Diogelwch Cymunedol wedi datblygu a gweithredu fframwaith rheoli gwybodaeth perfformiad cynhwysfawr sy'n ei gwneud yn bosibl i berfformiad gwasanaeth gael ei asesu yn erbyn dangosyddion perfformiad cenedlaethol a lleol. | **Safonau Gofal Iechyd Cymru[19]:** Technoleg Rheoli Gwybodaeth a Chyfathrebu. |

| Rhif | Safon Graidd | Gofynion Sylfaenol i Gyflawni'r Safon Graidd | Safonau Gofal Iechyd Diwygiedig Cymru |
|---|---|---|---|
| **7** | **Ni chaiff pobl sy'n cael triniaeth eu trin yn annheg ar sail oedran, rhyw, anabledd, ethnigrwydd, hil, crefydd na chyfeiriadedd rhywiol.** | i. Rhaid i bob sefydliad roi polisïau a gweithdrefnau ar waith sy'n cynnwys:<br>• Swyddog arweiniol cydnabyddedig sydd ag atebolrwydd a chyfrifoldeb dynodedig<br>• Asesiad o angen sy'n seiliedig ar asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb sy'n cynnwys proffil cymunedol o grwpiau oedran, rhyw ac ethnigrwydd<br>• Arolygon defnyddwyr gwasanaethau<br>• Systemau ar gyfer asesu addasrwydd safleoedd ar gyfer pobl anabl<br>• Dulliau o nodi a diwallu anghenion lleol grwpiau penodol, megis Age Concern ac Arweinwyr Cymunedol Lleiafrifoedd Ethnig lleol<br>• Dulliau o godi pryderon a gwneud cwynion ynghyd ag ymchwilio iddynt a'u cofnodi | **Safonau Gofal Iechyd Cymru[2]:** Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol. |

| Rhif | Safon Graidd | Gofynion Sylfaenol i Gyflawni'r Safon Graidd | Safonau Gofal Iechyd Diwygiedig Cymru |
|---|---|---|---|
| **8** | **Caiff safbwyntiau defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr, perthnasau a'r cyhoedd eu hystyried wrth gynllunio, darparu ac adolygu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, gan gynnwys cyngor a gwybodaeth gyffredinol.** | i. Rhaid i gynlluniau comisiynu, manylebau gwasanaethau a'u Cytundebau Lefel Gwasanaeth/Contractau cysylltiedig gynnwys polisïau a gweithdrefnau ar gyfer cynnwys y gymuned, defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr a pherthnasau. Rhaid i hyn gynnwys yr elfennau sylfaenol canlynol:<br>• Dulliau o ymgynghori â'r cyhoedd, defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr a grwpiau buddiant megis Age Concern, Ysgolion, Barnados, Cymunedau Lleiafrifoedd Ethnig, grwpiau preswyl lleol a Chynghorau Iechyd Cymuned<br>• "Hyrwyddwyr" enwebedig ar lefel Partneriaeth Diogelwch Cymunedol a Bwrdd Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau<br>• Dulliau o adolygu adborth o arolygon boddhad defnyddwyr gwasanaethau, ffurflenni adborth a chynlluniau awgrymiadau yn systemataidd<br>• Rhaglen addysg/hyfforddiant i staff allweddol sy'n ymwneud â gwaith ymgynghori sy'n gydnaws â'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol perthnasol<br><br>Adroddiad ar y ffordd y defnyddiwyd adborth. | **Safonau Gofal Iechyd Cymru[5]:** Cynnwys y Dinesydd a Chael Adborth. |

| Rhif | Safon Graidd | Gofynion Sylfaenol i Gyflawni'r Safon Graidd | Safonau Gofal Iechyd Diwygiedig Cymru |
|---|---|---|---|
| **9** | **Egwyddorion ansawdd a diogelwch sy'n sail i ddarparu gwasanaethau.** | i. Bod strategaeth effeithiolrwydd clinigol ar waith sy'n ymgorffori llywodraethu clinigol ac archwiliadau clinigol i sicrhau bod arferion cyfredol sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn cael eu cynnal.<br>ii. Cytuno ar system cyflwyno adroddiadau ar gyfer y sefydliad cyfan sy'n cynnwys dulliau o gasglu a defnyddio gwybodaeth yn effeithiol at ddibenion monitro ansawdd a diogelwch a gwneud penderfyniadau ynghyd â lefelau atebolrwydd. Dylai'r system nodi'n glir pa wybodaeth sydd ei hangen ar ba lefel ac at ba ddiben y'i darperir.<br>iii. Rhaid i'r system gynnwys adolygiad ac adroddiad mewn perthynas â'r canlynol:<br>• Canfyddiadau a chanlyniadau archwiliadau achosion a/neu glinigol<br>• Nifer yr archwiliadau amlddisgyblaethol/asiantaethol, lefelau cyfranogi, canfyddiadau a chanlyniadau<br>• Adroddiadau ar ddigwyddiadau andwyol a'u canlyniadau<br>• Gweithredu arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth<br>• Cynnydd yn erbyn y cynllun Gweithredu ar gyfer Datblygu'r Gweithlu Camddefnyddio Sylweddau<br>• Perfformiad yn erbyn Cytundebau Lefel Gwaranaeth/Contractau<br>• Rhesymeg a chostau defnyddio staff asiantaeth, cronfa a locwm | **Safonau Gofal Iechyd Cymru[1]:** Fframwaith Llywodraethu ac Atebolrwydd.<br><br>**Safonau Gofal Iechyd Cymru[7]:** Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol.<br><br>**Safonau Gofal Iechyd Cymru[19]:** Technoleg Rheoli Gwybodaeth a Chyfathrebu. |

| Rhif | Safon Graidd | Gofynion Sylfaenol i Gyflawni'r Safon Graidd | Safonau Gofal Iechyd Diwygiedig Cymru |
|---|---|---|---|
| **10** | **Caiff defnyddwyr gwasanaethau ymyriadau a gofal sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n cydymffurfio â'r holl ganllawiau perthnasol presennol.** | i. Bod systemau ar waith i gynnal archwiliadau achosion, archwiliadau clinigol ac adolygiadau rheolaidd gan gynnwys systemau i weithredu newidiadau.<br>ii. Bod pob manyleb gwasanaeth, Cytundeb Lefel Gwasanaeth a chontract yn adlewyrchu canllawiau perthnasol penodol.<br>iii. Bod systemau ar waith i sicrhau bod arfer gorau yn cael ei nodi a'i weithredu'n rheolaidd.<br>iv. Bod gwasanaethau'n darparu rhaglenni addysg a hyfforddiant i staff sy'n adlewyrchu arfer gorau a chanllawiau.<br>v. Bod polisïau ar waith i sicrhau datblygiad proffesiynol parhaus staff. | **Safonau Gofal Iechyd Cymru[7]:** Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol.<br><br>**Safonau Gofal Iechyd Cymru[26]:** Hyfforddi'r Gweithlu a Datblygu Sefydliadol. |
| **11** | **Caiff defnyddwyr gwasanaethau ymyriadau a gofal ymatebol, priodol a di-dor sy'n adlewyrchu eu hanghenion a dewisiadau corfforol, cymdeithasol a seicolegol.** | i. Caiff pob unigolyn sy'n cael triniaeth strwythuredig asesiad cynhwysfawr o angen sy'n cynnwys o leiaf y parthau perthnasol a geir yn null asesu WIISMAT.<br>ii. Rhaid i'r asesiad ystyried a chofnodi'r driniaeth a'r gofal mwyaf priodol neu'r driniaeth a'r gofal sy'n cael eu ffafrio, waeth p'un a yw'r driniaeth honno ar gael ai peidio.<br>iii. Yn dilyn Asesiad Cynhwysfawr, cytunir ar Gynllun Gofal rhwng y darparwr triniaeth a'r defnyddiwr gwasanaeth. | **Safonau Gofal Iechyd Cymru[8]:** Cynllunio a Darparu Gofal.<br><br>**Safonau Gofal Iechyd Cymru[9]:** Gwybodaeth a Chydsyniad Claf.<br><br>**Safonau Gofal Iechyd Cymru[18]:** Cyfathrebu'n Effeithiol. |

| Rhif | Safon Graidd | Gofynion Sylfaenol i Gyflawni'r Safon Graidd | Safonau Gofal Iechyd Diwygiedig Cymru |
|---|---|---|---|
| | | iv. Rhaid rhoi systemau ar waith i gynnal adolygiad systemataidd o gynlluniau gofal (bob tri mis o leiaf) gyda'r defnyddiwr gwasanaeth. Dylid cytuno ar gynlluniau gofal diwygiedig, canfyddiadau a chanlyniadau rhwng y darparwr triniaeth a'r defnyddiwr gwasanaethr.<br>v. Rhaid cyhoeddi Cyfeiriadur o Wasanaethau sy'n cynnwys gwybodaeth a meini prawf mynediad.<br>vi. Rhaid rhoi systemau ar waith i gynnal arolygon boddhad defnyddwyr a dysgu ohonynt.<br>vii. Rhaid rhoi systemau ar waith i fonitro cyfraddau gadael triniaeth, cyfraddau ailddechrau triniaeth, data gadael triniaeth sydd wedi'i gynllunio a data gadael triniaeth nad yw wedi'i gynllunio ynghyd â mynd i'r afael â hynny.<br>viii. Rhaid sicrhau bod protocolau atgyfeirio a rhannu gwybodaeth ar waith i ymateb i anghenion penodol unigolion nad ydynt yn ymwneud â chamddefnyddio sylweddau. Rhaid i hyn gynnwys yr elfennau sylfaenol canlynol:<br>• Beichiogrwydd<br>• Anghenion iechyd meddwl sy'n cyd-ddigwydd<br>• Amddiffyn Plant<br>• Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed<br>• Tai<br>• Iechyd cyffredinol, gan gynnwys iechyd y geg<br>• Addysg | |

| Rhif | Safon Graidd | Gofynion Sylfaenol i Gyflawni'r Safon Graidd | Safonau Gofal Iechyd Diwygiedig Cymru |
|---|---|---|---|
| **12** | **Mae safleoedd darparwyr gwasanaethau yn ddiogel, yn gwbl hygyrch ac yn ystyried y ffactorau sylfaenol canlynol:**<br>• **Diogelwch a lles staff a'r cyhoedd**<br>• **Anghenion gwahanol ddefnyddwyr gwasanaethau, er enghraifft mynediad i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn**<br>• **Preifatrwydd a Chyfrinachedd**<br>• **Diogelu pobl, eiddo ac asedau** | Rhaid i bob safle lle y darperir gwasanaethau camddefnyddio sylweddau weithredu'r canlynol:<br>i. Polisi Iechyd a Diogelwch.<br>ii. Arolygon o gyflwr adeiladau.<br>iii. Archwiliadau diogelwch tân.<br>iv. Asesiadau o Amgylchedd Cleifion Ysbyty ar gyfer gwasanaethau a ddarperir yn yr ysbyty.<br>v. Monitro cofnodion peryglon/diffygion o ran eu hamlder a'r amser a gymerir i roi gwybod amdanynt a'u hatgyweirio.<br>vi. Adroddiadau ar arferion ac ymarferion.<br>vii. Cydymffurfiaeth â chynlluniau cynnal a chadw.<br>viii. Tystiolaeth o ymgynghori â defnyddwyr gwasanaethau a'r cyhoedd lleol.<br>ix. Adolygu digwyddiadau, cwynion a honiadau lle y nodir bod cynllun, cyflwr, perfformiad amgylcheddol neu ddiogelwch adeilad wedi cyfrannu at y broblem/achosi'r broblem.<br>x. Asesiad o'r effaith ar anabledd. | **Safonau Gofal Iechyd Cymru[12]:**<br>Yr amgylchedd. |

| Rhif | Safon Graidd | Gofynion Sylfaenol i Gyflawni'r Safon Graidd | Safonau Gofal Iechyd Diwygiedig Cymru |
|---|---|---|---|
| | | xi. Bod system rheoli amgylcheddol ar waith a'i bod yn destun adolygiad a gwelliannau systemataidd sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth ac arfer gorau wrth asesu a rheoli risg).<br>I gynnwys:<br>• Cofrestr Risg<br>• Unigolion a hyfforddwyd<br>• System ar gyfer cofnodi ac adolygu cwynion<br>• Dull o gyflwyno adroddiadau, a lefel atebolrwydd ar gyfer monitro adroddiadau a chymryd camau adfer<br>xii. Bod polisïau a gweithdrefnau ar waith sy'n rheoli ymwelwyr megis contractwyr.<br>xiii polisïau a gweithdrefnau sy'n diogelu gweithwyr allgymorth. | |
| **13** | **Caiff defnyddwyr gwasanaethau eu trin ag urddas a pharch sy'n sensitif i anghenion unigol, gan gynnwys anghenion ieithyddol, diwylliannol a chorfforol.** | i. Bod rhaglen hyfforddi sgiliau cyfathrebu ar waith i staff.<br>ii. Bod rhaglenni hyfforddi amrywiaeth ar waith i staff. | **Safonau Gofal Iechyd Cymru[8]:** Cynllunio a Darparu Gofal.<br><br>**Safonau Gofal Iechyd Cymru[9]:** Gwybodaeth a Chydsyniad Claf.<br><br>**Safonau Gofal Iechyd Cymru[10]:** Urddas a Pharch. |

| Rhif | Safon Graidd | Gofynion Sylfaenol i Gyflawni'r Safon Graidd | Safonau Gofal Iechyd Diwygiedig Cymru |
|---|---|---|---|
| | | iii. Datblygir polisïau a gweithdrefnau ar urddas a pharch, cydsyniad hyddysg a'r defnydd o wybodaeth a'i chyfrinachedd, cytunir arnynt a chaiff y broses o'u gweithredu ei harchwilio'n rheolaidd.<br><br>iv. Mae Contract Gofal ar waith ar gyfer y sefydliad cyfan sydd wedi'i lofnodi gan bob defnyddiwr gwasanaeth a gweithiwr allweddol. Dylai'r Contract Gofal o leiaf gwmpasu'r safonau ymddygiad y disgwylir i ddefnyddwyr gwasanaethau a staff eu cyrraedd a chynnwys dulliau o ymdrin ag ymddygiad amhriodol. Dylid ei adolygu fel rhan o systemau a phrosesau rheoli staff y sefydliad.<br><br>v. Rhaid gweithredu polisïau a gweithdrefnau sy'n cyflawni'r canlynol o leiaf:<br>• Bodloni gofynion yr iaith Gymraeg<br>• Ieithoedd a diwylliannau eraill sy'n gyffredin i'r ardal<br>• Cyfathrebu â pherthnasau, gofalwyr neu ffrindiau a enwebwyd | |

| Rhif | Safon Graidd | Gofynion Sylfaenol i Gyflawni'r Safon Graidd | Safonau Gofal Iechyd Diwygiedig Cymru |
|---|---|---|---|
| | | • Cyfathrebu â defnyddwyr gwasanaethau dall a/neu fyddar<br>• Paneli Darllen Defnyddwyr Gwasanaethau o wybodaeth ysgrifenedig a luniwyd yn lleol<br>• Sicrhau preifatrwydd a chyfrinachedd<br>• Dadansoddi cwynion sy'n ymwneud â phroses gyfathrebu wael yn rheolaidd<br>vi. Rhoi prosesau ar waith i fonitro ac adolygu cydymffurfiaeth â deddfwriaeth cydraddoldeb ac amrywiaeth. | |
| **14** | **Caiff gwybodaeth am ddefnyddwyr gwasanaethau ei chadw'n gyfrinachol, oni bai bod deddfwriaeth yn mynnu ei datgelu.** | i. Rhaid gweithredu polisïau a gweithdrefnau cyhoeddedig sy'n cwmpasu'r canlynol o leiaf:<br>• Caiff defnyddwyr gwasanaethau eu hysbysu'n llawn o'u hawliau i gyfrinachedd mewn perthynas â gwybodaeth cleientiaid a gesglir fel mater o drefn megis y Proffil Canlyniadau Triniaeth, gwybodaeth a ddatgelir yn ystod asesiad cynhwysfawr, a chofnodion meddygol<br>• Defnyddir gwybodaeth bersonol a chyfrinachol<br>• Gofynion deddfwriaethol megis y rhai a geir yn y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (2000), y Ddeddf Diogelu Data (1998), y Ddeddf Amddiffyn Plant (1999), y Ddeddf Mynediad at Gofnodion Iechyd (1990) a'r Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd (1998) | **Safonau Gofal Iechyd Cymru[9]:** Gwybodaeth a Chydsyniad Claf. |

| Rhif | Safon Graidd | Gofynion Sylfaenol i Gyflawni'r Safon Graidd | Safonau Gofal Iechyd Diwygiedig Cymru |
|---|---|---|---|
| | | • Protocolau rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau yn unol â Chytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru<br>ii. Bod rhaglenni addysg staff yn cynnwys ymdrin â chyfrinachedd.<br>iii. Bod canllawiau staff ar gael yn ymwneud â rheoli gwybodaeth a'i darparu i ddefnyddwyr gwasanaethau, teuluoedd, gofalwyr a'r cyhoedd.<br>iv. Bod systemau ar waith i staff a/neu ddefnyddwyr gwasanaethau roi gwybod am achosion o dorri cyfrinachedd.<br>v. Bod systemau ar waith i ymchwilio i achosion o dorri cyfrinachedd, rhoi gwybod amdanynt a dysgu gwersi ohonynt. | |

| Rhif | Safon Graidd | Gofynion Sylfaenol i Gyflawni'r Safon Graidd | Safonau Gofal Iechyd Diwygiedig Cymru |
|---|---|---|---|
| **15** | **Lle y caiff bwyd a diod ei ddarparu mewn lleoliadau cleifion mewnol neu ofal preswyl, caiff anghenion maeth a hylif defnyddwyr gwasanaethau eu hasesu, eu cofnodi a'u diwallu yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau.** | i. Caiff defnyddwyr gwasanaethau'r canlynol:<br>• Dewis o fwyd a gaiff ei baratoi'n ddiogel yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau ac sy'n darparu deiet cytbwys sy'n bodloni gofynion deietegol maethol, personol, diwylliannol a chlinigol<br>• Caiff unrhyw gymorth angenrheidiol o ran bwyta neu yfed ei nodi a'i ddarparu<br>• Bod bwyd a diod ar gael bob awr o'r dydd a'r nos | **Safonau Gofal Iechyd Cymru[14]:**<br>Maeth. |
| **16** | **Mae sefydliadau'n cydymffurfio â chanllawiau amddiffyn plant cenedlaethol wrth gyflawni eu gweithgareddau eu hunain ac wrth ymdrin â sefydliadau eraill.** | i. Bod polisïau a gweithdrefnau ar waith sy'n adlewyrchu gofynion deddfwriaethol a'u bod yn cydymffurfio â chanllawiau cenedlaethol. Rhaid i'r rhain gynnwys:<br>• Prif rolau a chyfrifoldebau dynodedig<br>• Dyrannu adnoddau e.e. cyllideb a staff<br>• Cynnal ac adolygu dogfennaeth berthnasol o ran amddiffyn plant<br>• Protocolau gwaith rhyngasiantaethol a phrotocolau rhannu gwybodaeth<br>• Cydsyniad a chydsyniad hyddysg<br>• Argaeledd gwybodaeth defnyddwyr gwasanaethau<br>• Rhaglenni addysg a hyfforddiant rhyngasiantaethol i staff sy'n gydnaws â Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol perthnasol | **Safonau Gofal Iechyd Cymru[11]:**<br>Diogelu Plant ac Oedolion sy'n Agored i Niwed. |

| Rhif | Safon Graidd | Gofynion Sylfaenol i Gyflawni'r Safon Graidd | Safonau Gofal Iechyd Diwygiedig Cymru |
|---|---|---|---|
| | | • Trefniadau i sicrhau bod staff â'r cymwysterau priodol yn darparu gofal yn unol â'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Datblygu'r Gweithlu Camddefnyddio Sylweddau a chynlluniau gweithlu eraill<br>• Goruchwylio staff yn briodol<br>• Prosesau a dulliau atgyfeirio<br>• Trefniadau eiriolaeth<br>• Gweithio gyda gofalwyr a pherthnasau<br>• Dulliau o adolygu achosion ac ymchwilio iddynt<br>• Amgylcheddau sy'n ystyriol o blant<br>• Prosesau recriwtio a dethol staff diogel<br>• Codi pryderon/gwneud cwynion<br>• Dulliau o ymchwilio i bryderon/cwynion a rhoi gwybod amdanynt<br>• Codi pryderon/gwneud cwynion<br>• Dulliau o ymchwilio i bryderon/cwynion a rhoi gwybod amdanynt | |

| Rhif | Safon Graidd | Gofynion Sylfaenol i Gyflawni'r Safon Graidd | Safonau Gofal Iechyd Diwygiedig Cymru |
|---|---|---|---|
| | | ii. System hysbysu a weithredir gan Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a Bwrdd Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau i fonitro ac adolygu'r trefniadau sydd ar waith i ddiogelu plant a chydymffurfio â gofynion cyfreithiol ac arfer gorau. Dylai hyn gynnwys manylion cysylltiadau â Byrddau Diogelu Plant Lleol a Phartneriaethau Plant a Phobl Ifanc a nodi rolau, cyfrifoldebau a lefelau atebolrwydd ar gyfer casglu a defnyddio gwybodaeth yn effeithiol at ddibenion monitro a gwneud penderfyniadau. Mae'n ofynnol i hyn gynnwys y broses o gofnodi ac adolygu'r canlynol:<br>• Nifer y plant a gaiff eu derbyn i wardiau oedolion<br>• Digwyddiadau andwyol a/neu gritigol<br>• Cynnydd tuag at gyflawni'r cynllun hyfforddi staff sy'n gydnaws â'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Datblygu'r Gweithlu Camddefnyddio Sylweddau<br>• Dadansoddi canlyniad atgyfeiriadau am driniaeth<br>• Cydymffurfiaeth â gofynion deddfwriaethol a chanllawiau cenedlaethol<br>• Gweithredu argymhellion sy'n deillio o adolygiadau a/neu ymchwiliadau | |

| Rhif | Safon Graidd | Gofynion Sylfaenol i Gyflawni'r Safon Graidd | Safonau Gofal Iechyd Diwygiedig Cymru |
|---|---|---|---|
| **17** | **Mae sefydliadau'n bodloni gofynion diogelu o ran amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed wrth gyflawni eu gweithgareddau eu hunain ac wrth ymdrin â sefydliadau eraill.** | i. Bod polisïau a gweithdrefnau ar waith sy'n adlewyrchu gofynion deddfwriaethol ac sy'n cydymffurfio â chanllawiau cenedlaethol. Rhaid i'r rhain gynnwys:<br>• Prif rolau a chyfrifoldebau dynodedig<br>• Dyrannu adnoddau e.e. cyllideb a staff<br>• Cynnal ac adolygu dogfennaeth berthnasol o ran diogelu oedolion sy'n agored i niwed<br>• Protocolau gwaith rhyngasiantaethol a phrotocolau rhannu gwybodaeth<br>• Cydsyniad a chydsyniad hyddysg<br>• Argaeledd gwybodaeth defnyddwyr gwasanaethau<br>• Rhaglenni addysg a hyfforddiant ar y cyd i staff<br>• Trefniadau i sicrhau bod staff â chymwysterau priodol yn darparu gofal<br>• Goruchwylio staff yn briodol<br>• Prosesau a dulliau atgyfeirio<br>• Trefniadau eiriolaeth<br>• Gweithio gyda gofalwyr a pherthnasau<br>• Dulliau o adolygu achosion ac ymchwilio iddynt<br>• Trefniadau diogelwch<br>• Prosesau recriwtio a dethol staff diogel | **Safonau Gofal Iechyd Cymru[11]:**<br>Diogelu Plant ac Oedolion sy'n Agored i Niwed. |

| Rhif | Safon Graidd | Gofynion Sylfaenol i Gyflawni'r Safon Graidd | Safonau Gofal Iechyd Diwygiedig Cymru |
|---|---|---|---|
| | | • Codi pryderon/gwneud cwynion<br>• Dulliau o ymchwilio i bryderon/cwynion a rhoi gwybod amdanynt<br><br>ii. System hysbysu a weithredir gan Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a Bwrdd Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau i fonitro ac adolygu'r trefniadau sydd ar waith i amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed a chydymffurfio â gofynion cyfreithiol ac arfer gorau. Dylai nodi rolau, cyfrifoldebau a lefelau atebolrwydd ar gyfer casglu a defnyddio gwybodaeth yn effeithiol at ddibenion monitro a gwneud penderfyniadau. Mae'n ofynnol i hyn gynnwys y broses o gofnodi ac adolygu'r canlynol:<br>• Nifer y plant a gaiff eu derbyn i wardiau oedolion<br>• Digwyddiadau andwyol a/neu gritigol<br>• Cynnydd huag at gyflawni'r cynllun hyfforddi staff sy'n gydnaws â'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Datblygu'r Gweithlu Camddefnyddio Sylweddau<br>• Dadansoddi canlyniad atgyfeiriadau am driniaeth<br>• Cydymffurfiaeth â gofynion deddfwriaethol a chanllawiau cenedlaethol<br>• Gweithredu argymhellion sy'n deillio o adolygiadau a/neu ymchwiliadau | |

| Rhif | Safon Graidd | Gofynion Sylfaenol i Gyflawni'r Safon Graidd | Safonau Gofal Iechyd Diwygiedig Cymru |
|---|---|---|---|
| **18** | **Caiff cofnodion achosion eu creu, eu cynnal, eu storio a'u gwaredu yn unol â deddfwriaeth bresennol a chanllawiau cenedlaethol sy'n diogelu cyfrinachedd defnyddwyr gwasanaethau.** | i. Bod polisïau a gweithdrefnau ar waith sy'n ymwneud â phopeth o greu cofnodion i'w gwaredu yn y pen draw. Rhaid i bolisïau a gweithdrefnau gwmpasu'r canlynol o leiaf:<br>• Polisi diogelwch gwybodaeth gan gynnwys Rhyddid Gwybodaeth<br>• Prosesau cydsynio hyddysg mewn perthynas â defnyddio gwybodaeth<br>• Trefniadau diogelwch ar gyfer cofnodion gan gynnwys rheoli pwy a gaiff eu gweld<br>• Gweithredu argymhellion Caldicott<br>• Storio cofnodion mewn ffordd ddiogel yn amgylcheddol<br>• Protocolau ar gyfer cael gafael ar gofnodion o fewn cyfnod penodol o amser<br>• Dulliau a phrosesau ar gyfer cludo cofnodion<br>• Archif cofnodion a pholisi gwaredu<br>• Archwilio cofnodion yn fewnol ac yn allanol<br>ii. Hyfforddiant sefydlu a gloywi ar gyfer pob aelod o staff sy'n cwmpasu canllawiau deddfwriaethol a chenedlaethol ar gadw cofnodion.<br>iii. Systemau ar waith i fonitro ac adolygu systemau rheoli cofnodion yn rheolaidd. | **Safonau Gofal Iechyd Cymru[20]:**<br>Rheoli Cofnodion. |

| Rhif | Safon Graidd | Gofynion Sylfaenol i Gyflawni'r Safon Graidd | Safonau Gofal Iechyd Diwygiedig Cymru |
|---|---|---|---|
| **19** | **Mae systemau ar waith i nodi digwyddiadau andwyol ac achosion y bu bron iddynt ddigwydd sy'n cynnwys defnyddwyr gwasanaethau, rhoi gwybod amdanynt, ymchwilio iddynt a dysgu ohonynt.** | i. Bod polisi a gweithdrefnau ar waith mewn sefydliadau darparu gwasanaethau i nodi digwyddiadau andwyol a rhoi gwybod i Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol/Bwrdd Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau amdanynt mewn modd amserol. Dylai hyn gynnwys y canlynol o leiaf:<br>• Cydymffurfio â holl ofynion awdurdodau cyfrifol ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau andwyol ac ymchwilio iddynt<br>• Cynnwys defnyddwyr gwasanaethau a'u teulu/gofalwyr lle y bo'n briodol, wrth ymchwilio i ddigwyddiad andwyol neu achos y bu bron iddo ddigwydd, cyflwyno adroddiad arno a dysgu ohono<br>• Gweithdrefnau ar waith i ddysgu o ddigwyddiadau andwyol ac achosion y bu bron iddynt ddigwydd a throi'r hyn a ddysgwyd yn gamau gweithredu adferol<br>• Polisi a gweithdrefnau cyhoeddedig ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau<br>• Rhaglenni addysgu staff ar roi gwybod am ddigwyddiadau andwyol, ymchwilio iddynt a dysgu ohonynt | **Safonau Gofal Iechyd Cymru[23]:**<br>Delio â Phryderon a Rheoli Digwyddiadau. |
| **20** | **Ymchwilir i gwynion am y broses o ddarparu gwasanaethau yn brydlon ac yn drylwyr a chaiff yr achwynydd wybod y canlyniad.** | i. Bod gweithdrefn gwyno gyhoeddedig ar waith a gaiff ei hadolygu'n rheolaidd a'i bod yn cwmpasu'r canlynol:<br>• Sut i wneud cwyn<br>• Unigolion arweiniol enwebedig ymhob Partneriaeth Diogelwch Cymunedol/Bwrdd Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau a phob sefydliad darparu gwasanaethau | **Safonau Gofal Iechyd Cymru[23]:**<br>Delio â Phryderon a Rheoli Digwyddiadau. |

| Rhif | Safon Graidd | Gofynion Sylfaenol i Gyflawni'r Safon Graidd | Safonau Gofal Iechyd Diwygiedig Cymru |
|---|---|---|---|
| | | • Gweithdrefn ac amserlen ar gyfer ymchwilio i ddigwyddiad a chyflwyno adroddiad arno<br>• Cynnwys grwpiau defnyddwyr gwasanaethau<br>• Cymorth i'r unigolion hynny y gall fod angen help arnynt i wneud cwyn<br>• Meini prawf i bennu difrifoldeb a blaenoriaeth cwynion<br>• Cydsyniad a chyfrinachedd<br>• Gweld cofnodion<br>• Arolygon boddhad Defnyddwyr Gwasanaethau<br>• System adolygu i ddysgu o gwynion a throi'r hyn a ddysgir yn newidiadau i wasanaethau<br>• System o roi adborth i'r achwynydd<br>• Rhaglen addysgu staff<br><br>Dull o adolygu cwynion am y broses o ddarparu gwasanaethau ar lefel Partneriaeth Diogelwch Cymunedol/Bwrdd Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau. | |

| Rhif | Safon Graidd | Gofynion Sylfaenol i Gyflawni'r Safon Graidd | Safonau Gofal Iechyd Diwygiedig Cymru |
|---|---|---|---|
| **Rheoli Meddyginiaethau, dyfeisiau, cyfarpar a gwastraff meddygol** | | | |
| **21** | **Bydd y broses o reoli meddyginiaethau gan gynnwys eu defnyddio a'u storio yn cydymffurfio â deddfwriaeth cyffuriau a reolir, deddfwriaeth arall, systemau trwyddedu a chanllawiau.** | i. Bod polisïau a gweithdrefnau cofnodi ac adolygu ar waith sy'n cwmpasu'r canlynol:<br>• Asesu risg<br>• Systemau a gweithdrefnau caffael<br>• Rhagnodi a gweinyddu meddyginiaethau<br>• Storio, diogelu a mynediad<br>• Digwyddiadau a pheryglon<br>• Digwyddiadau andwyol<br>ii. Bod staff yn gymwys ac wedi'u hyfforddi i ragnodi a/neu weinyddu meddyginiaethau fel rhan o'u cylch gwaith.<br>iii. Bod rhaglenni addysgu staff ar waith sy'n cwmpasu gofynion deddfwriaethol, canllawiau cenedlaethol gan gynnwys rheoliadau iechyd a diogelwch sy'n gymesur â'u rôl.<br>iv. Bod gwybodaeth briodol ar gael i ddefnyddwyr gwasanaethau, aelodau'r teulu a gofalwyr am ddefnyddio meddyginiaethau a'u storio'n ddiogel. | **Safonau Gofal Iechyd Cymru[1]:**<br>Rheoli Meddyginiaethau. |

| Rhif | Safon Graidd | Gofynion Sylfaenol i Gyflawni'r Safon Graidd | Safonau Gofal Iechyd Diwygiedig Cymru |
|---|---|---|---|
| **22** | **Caiff y broses o gaffael, defnyddio a gwaredu cyfarpar a dyfeisiau meddygol ei rheoli'n briodol yn unol â chanllawiau a gofynion deddfwriaethol presennol.** | i. Mae polisïau a gweithdrefnau cofnodi ac adolygu ar waith sy'n cwmpasu'r canlynol:<br>• Asesu risg<br>• Digwyddiadau andwyol ac achosion y bu bron iddynt ddigwydd<br>• Cynnal a chadw, sterileiddio, glanhau a chalibro<br>• Rhoi gwybod am ddiffygion, ymateb iddynt a gweithredu cynlluniau wrth gefn<br>• Dadheintio eitemau amldro<br>• Rhaglenni disodli cyfarpar arfaethedig<br>• Cyfarpar diogelu priodol<br>• Systemau a gweithdrefnau caffael<br>• Defnyddio cyfarpar<br>• Storio, diogelu a mynediad<br>• Dosbarthu a gwaredu cyfarpar miniog<br>• Digwyddiadau a pheryglon<br>ii. Bod rhaglenni addysgu staff ar waith sy'n cwmpasu gofynion deddfwriaethol, canllawiau cenedlaethol gan gynnwys rheoliadau iechyd a diogelwch sy'n gymesur â'u rôl | **Safonau Gofal Iechyd Cymru[13]:** Atal a Rheoli Heintiau a Dadhalogi.<br><br>**Safonau Gofal Iechyd Cymru[16]:** Dyfeisiau, Offer a Systemau Diagnostig Meddygol. |

| Rhif | Safon Graidd | Gofynion Sylfaenol i Gyflawni'r Safon Graidd | Safonau Gofal Iechyd Diwygiedig Cymru |
|---|---|---|---|
| | | iii. Caiff cyngor a gwybodaeth briodol yn ymwneud â defnyddio a storio cyfarpar yn ddiogel eu rhoi i ddefnyddwyr gwasanaethau, aelodau'r teulu a gofalwyr. | |
| **23** | **Mae gan sefydliadau systemau rheoli adnoddau dynol sy'n gwneud y canlynol:**<br>**i. Cefnogi staff a gwerthfawrogi eu cyfraniad unigol.**<br>**ii. Trin staff ag urddas a pharch, gwerthfawrogi, deall a pharchu amrywiaeth.** | i. Bod system adolygu perfformiad flynyddol a ffurfiol ar waith i bob aelod o staff sy'n cynnwys adolygu anghenion datblygu personol a phroffesiynol. Dylai fod gan bob aelod o staff gynllun datblygu personol yn unol â'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Datblygu'r Gweithlu Camddefnyddio Sylweddau.<br>ii. Caiff pob aelod o staff hyfforddiant ar adolygu perfformiad sy'n briodol i'w lefel a'i rôl yn y sefydliad.<br>iii. Bod cysylltiad amlwg rhwng adolygu perfformiad a datblygiad a'r targedau a geir yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Datblygu'r Gweithlu Camddefnyddio Sylweddau a gofynion datblygu proffesiynol eraill fel sy'n briodol a chynllun y sefydliad o ran datblygu'r gweithlu.<br>iv. Bod gan wasanaethau gynlluniau a pholisïau cydraddoldeb ar waith, sy'n sicrhau bod pob agwedd ar ddarparu gwasanaethau yn cydymffurfio â deddfwriaeth a chanllawiau cydraddoldeb.<br>v. Cynhelir asesiadau effaith ar gydraddoldeb mewn perthynas â pholisïau adnoddau dynol o bryd i'w gilydd. | **Safonau Gofal Iechyd Cymru[25]:** Arferion Recriwtio a Chyflogi'r Gweithlu. |

| Rhif | Safon Graidd | Gofynion Sylfaenol i Gyflawni'r Safon Graidd | Safonau Gofal Iechyd Diwygiedig Cymru |
|---|---|---|---|
| | | vi. Bod systemau ar waith mewn sefydliadau darparu gwasanaethau sy'n galluogi staff i godi pryderon gyda hyder a heb beryglu eu swydd, ynghylch unrhyw agwedd ar ddarparu gwasanaethau, darparu triniaeth neu reoli. Rhaid i weithdrefnau gynnwys y canlynol o leiaf:<br>• Polisi cyfrinachedd sy'n diogelu staff unigol sy'n codi pryderon<br>• Gweithdrefnau cyhoeddedig ar gyfer ymchwilio i ganfyddiadau a chyflwyno adroddiadau arnynt mewn sefydliadau darparu triniaeth ac i Fyrddau Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau a/neu eu Partneriaethau Diogelwch Cymunedol cyfansoddol<br>• Dulliau o wneud penderfyniadau er mwyn gweithredu ar ganfyddiadau ymchwiliadau | |

| Rhif | Safon Graidd | Gofynion Sylfaenol i Gyflawni'r Safon Graidd | Safonau Gofal Iechyd Diwygiedig Cymru |
|---|---|---|---|
| **24** | **Caiff staff sy'n gyfrifol am ddatblygu a darparu gwasanaethau eu recriwtio a'u hyfforddi'n briodol ac mae ganddynt y cymwysterau priodol i gyflawni eu gwaith yn unol â chanllawiau cenedlaethol presennol.** | i. Bod gweithdrefnau recriwtio ar waith sy'n cynnwys prosesau a meini prawf diffiniedig ar gyfer hysbysebu, cyfweld a dethol.<br>ii. Bod gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod yr holl wiriadau cyflogaeth angenrheidiol yn cael eu cynnal a bod pob aelod o staff cymwys a gyflogir neu sydd ar gontract wedi'i gofrestru â'r cyrff perthnasol.<br>iii. Caiff canlyniadau geirdaon a gwiriadau cofrestru proffesiynol eu cofnodi, eu hadolygu lle y bo'n briodol a'u cynnal mewn ffordd ddiogel a chyson.<br>iv. Dylai pob contract cyflogaeth gynnwys dyletswydd i gydymffurfio ag unrhyw godau ymarfer ac ymddygiad proffesiynol perthnasol.<br>v. Bod rhaglenni hyfforddi ar waith i staff sy'n gyfrifol am recriwtio.<br>vi. Bod cynllun datblygu'r gweithlu ar waith sy'n cynnwys y broses Sefydlu, hyfforddiant sgiliau a rhaglenni Datblygiad Proffesiynol Parhaus, sydd wedi'i fapio â Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol yn unol â'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Datblygu'r Gweithlu Camddefnyddio Sylweddau.<br>vii. Dylai pob manyleb gwasanaeth a'i Gytundeb Lefel Gwasanaeth a chontract ategol fanylu ar y polisïau sefydliadol sy'n ymwneud â datblygu'r gweithlu. | **Safonau Gofal Iechyd Cymru[25]:**<br>Arferion Recriwtio a Chyflogi'r Gweithlu. |

| Rhif | Safon Graidd | Gofynion Sylfaenol i Gyflawni'r Safon Graidd | Safonau Gofal Iechyd Diwygiedig Cymru |
|---|---|---|---|
| | | viii. Dylai pob manyleb gwasanaeth gynnwys ystod ddangosol o rolau a chymwysterau priodol sy'n gymesur â natur y gwasanaeth a nodir.<br><br>ix. Bod gan bob swydd ymhob sefydliad ddisgrifiadau swydd cyfredol sy'n nodi'r cymwysterau proffesiynol, y cymwyseddau a'r sgiliau gofynnol sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Datblygu'r Gweithlu Camddefnyddio Sylweddau a chynlluniau gweithlu perthnasol eraill e.e. strategaethau'r gweithlu Plant a Phobl Ifanc. | |

| Rhif | Safon Graidd | Gofynion Sylfaenol i Gyflawni'r Safon Graidd | Safonau Gofal Iechyd Diwygiedig Cymru |
|---|---|---|---|
| **25** | **Caiff pob ymyriad ei gyflawni gan staff sydd wedi cael yr hyfforddiant priodol ac sy'n meddu ar y cymwysterau priodol a gaiff eu goruchwylio lle y bo'n briodol.** | i. Bod polisïau ar waith i oruchwylio a rheoli staff yn briodol yn unol â chanllawiau proffesiynol.<br>ii. Bod polisïau ar waith i adolygu perfformiad staff yn rheolaidd gan gynnwys adolygu anghenion hyfforddi a datblygu.<br>iii. Bod systemau ar waith i gyflwyno cyfarwyddyd, canllawiau ac arferion newydd.<br>iv. Gall pob darparwr gwasanaeth ddangos tystiolaeth bod canlyniadau Cytundebau Lefel Gwasanaeth, Contractau a Manylebau Gwasanaeth yn gyflawnadwy gyda'r sgiliau sydd ar gael a bod trefniadau goruchwylio a rheoli cadarn yn rhan o'r broses o ddarparu gwasanaethau. | **Safonau Gofal Iechyd Cymru[24]:** Cynllunio'r Gweithlu.<br><br>**Safonau Gofal Iechyd Cymru[26]:** Hyfforddi'r Gweithlu a Datblygu Sefydliadol. |

# Safonau Gofal Iechyd Cymru 2010

## Cyfeiriadau

### Cyfeiriadau Deddfwriaethol

| Rhif | Teitl |
|---|---|
| 1 | Deddf Mynediad at Gofnodion Iechyd 1990 |
| 2 | Deddf Mynediad at Gofnodion Meddygol 1988 |
| 3 | Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 |
| 4 | Rheoliadau cludo nwyddau peryglus a defnyddio cyfarpar pwysedd cludadwy 2007 |
| 5 | Deddf Plant 1989 |
| 6 | Deddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990 |
| 7 | Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd 1988 |
| 8 | Rheoliadau Gwastraff a Reolir (Cofrestru Cludwyr ac Atafaelu Cerbydau) (Diwygio) 1998 |
| 9 | Rheoliadau Gwastraff a Reolir 1992 |
| 10 | Deddf Diogelu Data (1998) |
| 11 | Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 |
| 12 | Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Dyletswydd Gofal) 1991 |
| 13 | Y Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd |
| 14 | Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 |
| 15 | Deddf Cydnabod Rhyw (2004) |
| 16 | Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru a Lloegr) 2005 |
| 17 | Y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2001) |
| 18 | Deddf Ffrwythloni Dynol ac Embryoleg 1990/92 |
| 19 | Deddf Hawliau Dynol 1998 |
| 20 | Y Ddeddf Meinwe Dynol (2004) |
| 21 | Rheoliadau'r Rhestr Wastraffoedd (Cymru) 2005 |
| 22 | Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 |
| 23 | Rheoliadau Meddyginiaethau (Labelu) 1976 |
| 24 | Deddf Meddyginiaethau 1968 |
| 25 | Deddf Galluedd Meddyliol 2005 |
| 26 | Deddf Iechyd Meddwl 1983 |
| 27 | Deddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971 |

| Rhif | Teitl |
| --- | --- |
| 28 | Deddf Gwenwyn 1972 |
| 29 | Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 |
| 30 | Deddf Amddiffyn Plant (1999) |
| 31 | Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 |
| 32 | Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus 1995 (Nid 1999) |
| 33 | Deddf Plant 2004 |
| 34 | Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974 |
| 35 | Rheoliadau Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff, 2006 |
| 36 | Rheoliadau Trwyddedu Rheoli Gwastraff 1994 |

# Cyfeiriadau Polisi a Chanllawiau Cenedlaethol

| Rhif | Teitl |
|---|---|
| 1 | *(A revision of the Duthie Report (1988))* **Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol, 2005** |
| 2 | A spoonful of sugar, medicines management in National Health Service Hospitals, Comisiwn Archwilio, Rhagfyr 2001 |
| 3 | Pwyllgorau Ardal Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (2002 [Diwygiwyd 2004]) *Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan* Ariannwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru |
| 4 | Grŵp Adolygu Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (2002) [Diwygiwyd 2004 a 2005] |
| 5 | Pasbort Hyfforddi a Chynllun Gwybodaeth Trais ac Ymddygiad Ymosodol y Gwasanaeth Iechyd Gwladol i Gymru Gyfan |
| 6 | All Wales Training and Development Managers, *Best Practice Guide to Setting the Record Straight,* Comisiwn Archwilio |
| 7 | Ar Draws Ffiniau - Gwasanaethau lleol sy'n canolbwyntio ar y dinesydd (Cymru). Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006 |
| 8 | BS ISO/IEC 17799:2000 (BS 7799-1:2000) Information technology - Code of practice for information security management |
| 9 | BS ISO/IEC 27001:2005 (BS 7799-2:2005) Information technology - Security techniques - Information security management systems - Requirements |
| 10 | Canllawiau comisiynu i wasanaethau camddefnyddio sylweddau, Llywodraeth Cynulliad Cymru, (2005) |
| 11 | Cyfrinachedd: Cod Ymarfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru (2005) |
| 12 | Yr Adran Materion Cyfansoddiadol - Public Sector Data Sharing, Guidance on the Law |
| 13 | Yr Adran Iechyd *Choosing with Care*, Llundain |
| 14 | Yr Adran Iechyd (1997) *The Caldicott Committee, Report of the review of patient-identifiable information*, Llundain |
| 15 | Yr Adran Iechyd (2000) *No Secrets, Guidance on developing and implementing multi-agency policies and procedures to protect vulnerable adults from abuse,* Llundain |
| 16 | Cynllun Oes - creu iechyd a gofal cymdeithasol o'r radd flaenaf i Gymru yn yr 21ain ganrif Mai 2005 Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru |
| 17 | Cynllun Cydymffurfio Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru 2006 |
| 18 | Drug Misuse and Dependence - UK Guidance on Clinical Management |
| 19 | Environmental strategy for the National Health Service 2006 |
| 20 | Y Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd |
| 21 | Cyngor Meddygol Cyffredinol (2000) *Confidentiality, Protecting and Providing Information*, Llundain |
| 22 | Cyngor Meddygol Cyffredinol (2003) *A Licence to Practice and Revalidation* |
| 23 | Canllawiau a diffiniadau ar gyfer Cronfa Ddata Genedlaethol Cymru ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau |
| 24 | HB228: 2001Guidelines for managing risk in healthcare |

| Rhif | Teitl |
|---|---|
| 28 | Health Advisory Service Thematic Review of Children and Young People Substance Misuse Services 1996 |
| 29 | Memoranda Technegol Iechyd (HTM) (Gweler Atodiad 3) |
| 30 | Cyngor Meddygol Cyffredinol (2003) *A Licence to Practice and Revalidation* |
| 31 | Strategaeth Gwastraff Gofal Iechyd Cymru, 2006 |
| 32 | Hidden Harm - Responding to the needs of children of problem drug users 2003 - The report of an inquiry by the Advisory Council on the Misuse of Drugs |
| 33 | Hidden Harm - Three Years On: Realities, Challenges and Opportunities (Chwefror 2007) |
| 34 | Tŷ'r Cyffredin (2004) *The Bichard Inquiry Report*, HMSO |
| 35 | HSC 1999/065 Clinical Governance: In the new National Health Service |
| 36 | Comisiynydd Gwybodaeth (2003) *The Freedom of Information Act 2000: An Introduction* |
| 37 | Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth - Use and Disclosure of Health Data (2001) |
| 38 | Learning from Bristol: The Report of the Public Inquiry into children's heart surgery at the Bristol Royal Infirmary 1984-1995 (2001) |
| 39 | Yr Arglwydd Laming (2003) *The Victoria Climbie Inquiry: Report of an Inquiry by Lord Laming, HMSO*, Norwich |
| 40 | Creu'r Cysylltiadau, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004 |
| 41 | Medical Device Alert MDA 2004/054 (Wales) *Reporting Adverse Incidents - Guidance on New Arrangements for National Health Service Wales Organisations*, Cymru |
| 42 | Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynnyrch Gofal Iechyd (MHRA) Nodiadau Cyfarwyddyd a Bwletinau Dyfeisiau (DB) (Gweler Atodiad 2) |
| 43 | Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynnyrch Gofal Iechyd (MHRA) Canllawiau |
| 44 | Modernising Medical Careers *www.cardiff.ac.uk/pgmde/hospital_practice* |
| 45 | Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2001) Informing Health in Wales; Clinical Governance - developing a strategic approach |
| 46 | Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2001) Informing Health in Wales; Clinical Governance - a toolkit for clinical teams |
| 47 | Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2003) Informing Health in Wales: An Introduction to Clinical Audit |
| 48 | Cynulliad Cenedlaethol Cymru/Swyddfa Gartref (2000) *Mewn Dwylo Diogel - Rhoi Gweithdrefnau Amddiffyn Oedolion ar Waith yng Nghymru* |
| 49 | Canllawiau Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion |
| 50 | NCASP (2002) Support for National Service Frameworks and Clinical Governance |

| Rhif | Teitl |
|---|---|
| 51 | Canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol |
| 52 | Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, *Guidelines for Records and Record Keeping*, Llundain |
| 53 | *Adolygiadau Datblygiad Personol a'r Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau* |
| 54 | Rhoi Cleifion yn Gyntaf  Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru 1998 |
| 55 | Gofal Safonol a Rhagoriaeth Glinigol Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru 1998 |
| 56 | Records Management - National Health Service Code of Practice (2005) |
| 57 | Rheoli Risg yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol |
| 58 | Fframwaith Rheoli Diogelwch ar gyfer Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru, 2005 |
| 59 | Adroddiad Comisiynydd Plant Cymru (2003) *Datgan Pryderon* |
| 60 | Safonau ac Arferion y Sefydliad Gwyddorau Dadhalogi (IDSc) |
| 61 | The Management of Medical Equipment in National Health Service Acute Trusts in England, *Swyddfa Archwilio Genedlaethol*, 1999 |
| 62 | The Safe and Secure Handling of Medicines: A Team Approach |
| 63 | The Shipman Enquiry - The Fifth Report (2004) - *Safeguarding Patients: Lessons from the Past - Proposals for the Future* |
| 64 | Peth Rhy Ddifrifol: Adolygiad Carlile 2002 (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) |
| 65 | Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 1989 |
| 66 | Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (2006) |
| 67 | Waterhouse (2000) *Ar Goll Mewn Gofal - Adroddiad y Tribiwnlys i Gamdriniaeth Plant mewn Gofal yn Ardal Cyn Gyngor Sir Gwynedd a Chlwyd ers 1974* |
| 68 | Llywodraeth Cynulliad Cymru (2000) *Cydweithio i Ddiogelu Plant* |
| 69 | Llywodraeth Cynulliad Cymru (2002) *Canllaw Cyfeirio ar Gael Caniatâd i gynnal Archwiliad neu Ddarparu Triniaeth*, Caerdydd |
| 70 | Llywodraeth Cynulliad Cymru (2003) *Hanfodion Gofal, Canllawiau i Staff Iechyd a Gofal Cymdeithasol; Gwella ansawdd agweddau sylfaenol ar iechyd a gofal cymdeithasol i oedolion*, Caerdydd |
| 71 | Llywodraeth Cynulliad Cymru (2005) *Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru* |
| 72 | Llywodraeth Cynulliad Cymru (2005) *Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru*, Caerdydd |
| 73 | Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006) *Cynllun Oes: Strategaeth gweithlu i ddarparu'r Cynllun Oes* |
| 74 | Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006) *Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004* |

| Rhif | Teitl |
|---|---|
| 75 | Llywodraeth Cynulliad Cymru Fframweithiau Trin Camddefnyddio Sylweddau i Gymru |
| 76 | Cylchlythyrau Iechyd Cymru (CIC) (Gweler Atodiad 1) |
| 77 | Cronfa Risg Cymru: Pecyn Cymorth Rheoli Risg |
| 78 | When a Patient dies - Advice on Developing Bereavement Services |
| 79 | Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed: Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau Cymru 2008-2018 |